

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

# Dehongli Cymru Interpret Wales

Hydref Autumn  
2012 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

18

## Yn y rhifyn hwn In this issue

Bling - Dysgu  
drwy Ddiwylliant  
a Chreadigrwydd  
**Bling - Learning  
through Culture  
and Creativity**

Dehongli Mynydd  
Mawr mewn Lle Bach  
**Interpreting a  
Big Mountain in  
a Small Space**

Calch - Hoelio'r sylw  
ar Fannau Brycheiniog  
**Calch - Putting the  
Brecon Beacons in  
the limelight**

Dilyn y Stori  
**Following the Story**

**DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES**  
**Rhifyn 18 Hydref 2012**

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru  
ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:  
Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd  
y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a  
diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon  
uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy  
rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a  
gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u  
logos yn ymddangos isod.

## Cynnwys

**4-5 Dilyn y stori**  
Dave Penberthy

**8-9 Bling - dysgu drwy  
ddiwylliant a chreadigrwydd**  
Sarah Greenhalgh

**12-13 Dehongli mynydd mawr  
mewn lle bach**  
Carl Atkinson

**16-17 Calch – hoelio'r sylw  
ar Fannau Brycheiniog**  
Duncan Schlee

**20 Digwyddiadau**

### Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales /  
Dehongli Cymru  
**Ruth Taylor Davies**  
lethaconsultancy@fsmail.net  
ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru  
**Ruth Waycott**  
ruth@waycott.fsnet.co.uk  
ffôn: 01600 860779

**Llun y clawr:** Bling! Y ffrog Sydic Bling  
yn cael ei arddangos yn Amgueddfa  
Cenedlaethol Caerdydd  
**Uchod:** Prosiect adrodd straeon a llythrennedd  
Cadw yng Nghastell Cydweli - gyda Michael  
Harvey ac Ysgol Gwenllïan.



O'r  
Golygydd

**M**ae un o bob tri phlentyn yng  
Nghymru yn byw mewn tldi.  
Dyna pam mae mynd i'r afael â  
thlodi plant yn uchel ar agenda  
Llywodraeth Cymru. Ond a yw hwn yn  
fater i'r sector dehongli? Pa rôl y gall ein  
sefydliadau diwylliannol (a chyllidwyr) ei  
chwarae yn mynd i'r afael â thlodi plant?  
Ac a ddylen ni eu hystyried nhw (a ni) yn  
rhan o'r ateb?

Yn sicr, mae mynediad am ddim i'n  
Hamgueddfeydd Cenedlaethol wedi cael  
effaith gadarnhaol ar blant a theuluoedd sy'n  
byw mewn tldi. Mae'r nifer o bobl yn y  
categori C2DE sy'n ymweld ag Amgueddfa  
Cymru- National Museum Wales ers  
cyflwyno mynediad am ddim yn 2001  
wedi cynyddu o 250,000 o ymweliadau  
i 500,000 yn 2011. Mae'r dystiolaeth yn  
dangos, drwy greu cyfleoedd i blant a phobl  
ifanc fanteisio ar weithgarwch diwylliannol,  
eu bod yn datblygu persbectif gwahanol ar  
y byd. Mae'n help i gynyddu eu dyheadau.  
Maen nhw'n gwneud yn well na'r rhai nad  
ydynt yn gallu manteisio. Mae'r buddion yn  
ymledu i rieni a'r gymuned leol yn ogystal  
â chyfoethogi'r mudiadau hynny sy'n  
ceisio helpu.

Yn ddiweddar lansiodd Amgueddfa Cymru  
- National Museum Wales ei strategaeth  
'Gweddnewid Dyfodol Plant...drwy greu  
llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol'.  
Dros y tair blynedd nesaf bydd y strategaeth  
hon yn cefnogi cynnwys plant, pobl ifanc a  
theuluoedd difreintiedig mewn gweithgar-  
eddau diwylliannol. Gan weithio mewn  
partneriaeth â Chymunedau'n Gyntaf  
Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog,  
mae'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol wedi  
cynnal gweithdai ar y celfyddydau gweledol  
i bobl ifanc, yn eu helpu i ddatblygu'u sgiliau

ym maes celf a thechnoleg. Drwy ddef-  
nyddio artistiaid lleol fel delfrydau ymddwyn,  
mae'r Amgueddfa wedi bod yn dangos bod  
modd ennill bywoliaeth drwy'r celfyddydau  
gweledol yng ngogledd Cymru. I rai pobl  
ifanc mae hyn wedi agor drysau i lwybr  
gyrfaol gwahanol. Mae un arall o brosiectau  
Amgueddfa Cymru- National Museum -  
*Bling* – wedi bod yn ffordd gyffrous o wneud  
casgliadau'r Amgueddfa yn fwy democrataidd  
a mynd i'r afael â'r agenda ymladd tldi yr  
un pryd. Mae Sarah Greenhalgh yn rhannu  
peth *Bling* gyda ni yn y rhifyn hwn!

Yn y 1990au ysgrifennodd Ruth Abram  
(sylfaenydd y Lower East Side Tenement  
Museum yn Efrog Newydd) am ddefnyddio  
'grym hanes i weddnewid bywydau' ac  
am 'harnaisio'r potensial hwnnw i wella  
cymdeithas'. Dyma deimladau y byddai'n  
werth inni eu dwys ystyried wrth chwilio  
am ffyrdd o ymladd tldi (yn ei ffurfiau  
amrywiol) - a dweud storïau ein cenedl.

Hefyd yn y rhifyn hwn: mae Dave  
Penberthy yn rhoi'r wybodaeth ddiwedd-  
araf inni am sut mae strategaeth adrodd  
storïau Cymru gyfan yn dod i fwcl. Mae  
Duncan Schlee yn cyflwyno *Calch*, un o'r  
llu o brosiectau sy'n dilyn themâu Cymru  
gyfan, yn yr achos hwn *Cymru – y wlad  
ddiwydiannol gyntaf*. Ac mae Carl Atkinson  
yn rhannu ei brofiad diweddar o gynllunio  
deongliadol yn Ystradlyn, lle mae  
arddangosfa newydd erbyn hyn yn  
gwneud cyfiawnder ag un o fynyddoedd  
mawr Cymru – Cadair Idris. Hoffwn  
ddiolch i'r cyfranwyr i gyd ac i Gomisiwn  
Coedwigaeth Cymru am y cyfieithiadau.

Ruth Waycott  
Golygydd

**O**ne in three children in Wales lives  
in poverty. That's why tackling  
child poverty is high on the Welsh  
Government's agenda. But is this an issue  
for the interpretation sector? What role can  
our cultural organisations (and funders) play  
in tackling child poverty? And should we  
view them (and us) as part of the solution?

Free entry to our National Museums  
has undoubtedly had a positive impact on  
children and families living in poverty. The  
number of people in the C2DE category  
visiting Amgueddfa Cymru - National  
Museum Wales since free entry began  
in 2001 has risen from 250,000 visits to  
500,000 in 2011. This is a pattern mirrored  
at Blaenavon Ironworks, Cadw's free entry  
site within the industrial Valleys. The evi-  
dence shows, that by creating opportunities  
for children and young people to access  
cultural activity, they gain a different pers-  
pective on the world. It helps to raise their  
aspirations. They do better than those who  
don't have access. The benefits spread to  
parents and the local community as well as  
enriching those organisations trying to help.

Amgueddfa Cymru - National Museum  
Wales recently launched its strategy  
'*Transforming Children's Futures...by  
creating pathways for cultural participation*'.  
Over the next three years this strategy will  
support the involvement in cultural activities  
of children, young people and families in  
disadvantaged circumstances. Working in  
partnership with Communities First Bowydd  
and Rhiw in Blaenau Ffestiniog, the National  
Slate Museum has run visual arts workshops  
for young people, helping them develop  
their skills in art and technology. By using  
local artists as role models the National  
Slate Museum has been demonstrating that  
you can make a living through the visual

arts in north Wales. For some youngsters  
this has opened doors to a different career  
path. Another of the Museum's projects -  
*Bling* - has proved to be an exciting way  
of making the Museum's collections more  
democratic, whilst addressing the agenda  
for tackling poverty. Sarah Greenhalgh  
shares some *Bling* with us in this issue!

Cadw too are developing a Learning  
Strategy to support the Tackling Poverty  
Agenda. Their archaeologists have been  
working with a prison on archaeological  
skills workshops. They have been running a  
Storytelling and Literacy Project at Denbigh  
and Kidwelly Castles and involving young  
people from a Pupil Referral Unit with the  
Taking Flight Theatre Company, putting on  
a 'Play In A Week' at Basingwerk Abbey.

In the 1990s Ruth Abram (the founder  
of the Lower East Side Tenement Museum  
in New York) wrote of using 'the power of  
history to transform lives' and of 'harnessing  
that potential to improve society'. They  
are sentiments we would do well to think  
on as we search for ways to combat poverty  
(in its many forms) - and tell the stories of  
our nation.

Also in this issue: Dave Penberthy pro-  
vides an update on how the pan-Wales story  
telling strategy is taking shape. Duncan Schlee  
introduces *Calch*, one of many projects  
following the pan-Wales themes, in this  
case *Wales the first industrial nation*. And  
Carl Atkinson shares his recent experience  
of interpretive planning at Ystradlyn, where  
a new exhibition now does justice to one  
of Wales' great mountains - Cadair Idris.  
With thanks to all our contributors and to  
Forestry Commission Wales for translations.

Ruth Waycott  
Editor

**INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU**  
**Issue 18 Autumn 2012**

Published by the Countryside Council for Wales  
on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret  
Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to  
enthuse the public about our natural and  
cultural heritage through interpretation of the  
highest quality, and to support interpreters by  
networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group  
representing the agencies whose logos  
appear below.

## Contents

**6-7 Following the story**  
Dave Penberthy

**10-11 Bling - learning through  
culture and creativity**  
Sarah Greenhalgh

**14-15 Interpreting a big mountain  
in a small space**  
Carl Atkinson

**18-19 Calch - putting the Brecon  
Beacons in the limelight**  
Duncan Schlee

**20 Events**

### Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat  
**Ruth Taylor Davies**  
lethaconsultancy@fsmail.net  
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter  
**Ruth Waycott**  
ruth@waycott.fsnet.co.uk  
tel: 01600 860779

**Front cover image:** Bling! The Sydic Bling  
dress on display in National Museum Cardiff  
**Top:** Cadw's storytelling and literacy project  
at Kidwelly Castle - with Michael Harvey  
& Ysgol Gwenllïan.



Interpret Wales, issue 18

# Dilyn y stori

Yn y rhifynnau blaenorol cyflwynodd Cadw'r syniad o ddefnyddio dull Cymru gyfan i ddehongli treftadaeth.

Mae gan Gymru lawer o straeon mawr i'w hadrodd a gellir cysylltu nifer o'r rhain ar sail Cymru gyfan - roedd porthladdoedd yn codi yn sgil diwydiannau i mewn yn y tir neu ar draws y dŵr; adeiladwyd cestyll fel rhan o rwydweithiau amddiffyn strategol; roedd pererinion yn mynd o'r naill le ysbrydol i'r llall. Mae gan y dull holistig hwn botensial i fod yn un o bwyntiau gwerthu cryfaf Cymru i ymwelwyr. Mae Cymru'n ddigon bach yn ddaearyddol i gynnig straeon cysylltiedig. Gall manau hanesyddol, bach neu fawr, enwog neu ddinod weithio gyda'i gilydd i gynnig naratif crwn, dealladwy, diddorol a chyffrous i orffennol y genedl.

Mae pobl neu ymwelwyr yn ganolog i'r meddylfryd Cymru gyfan. Bydd y dull hwn yn annog ymwelwyr i ddechrau deall nad yw safleoedd treftadaeth yn bodoli ar eu pennau eu hunain; ond eu bod yn rhan o hanes rhanbarthol neu genedlaethol ehangach. Gellir defnyddio'r dull mwy cydlynol hwn i annog ymwelwyr i fynd i weld safleoedd treftadaeth eraill neu i wneud y cysylltiadau rhwng safleoedd a hanesion wrth ymweld â safleoedd eraill yn y dyfodol.



Yr eiconau stori  
The story icons

Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth wrth ddatblygu pecynnau ymwelwyr integredig sy'n annog pobl i aros yn hirach ac ymchwilio'n ddyfnach. Ysgrifennwyd cyfres o gynlluniau dehongli sy'n 'dilyn y stori' i gefnogi'r dull Cymru gyfan hwn. Nid perchnogaeth, ffiniau gwleidyddol neu feini prawf cyllido yw'r prif ywyr wrth eu ffurfio - y straeon sy'n bwysig a'r bobl a fydd yn ymddiddori yn y straeon hynny.

## Felly sut mae cyfleu'r neges i ymwelwyr?

Bydd rhai ohonoch eisoes wedi sylwi ar y slogan **'Dilynwch y stori'** a'r **eiconau stori** sydd eisoes yn dechrau ymddangos mewn dehongli ledled Cymru. Clwbiau gweledol syml yw'r rhain ac wrth eu gosod ar unrhyw fath o gyfryngau dehongli, maent yn dweud wrth y rhai sy'n eu gweld fod y dehongli hwn yn rhan o stori ehangach - ac yn eu hannog i fynd i weld llyfdd eraill sy'n gysylltiedig â'r stori honno. Er enghraifft mae'r dehongli yn Sycharth yn rhoi dewisiadau eraill o safleoedd sy'n ymwneud ag Owain Glyndŵr fel "Dilynwch y stori...i Hanmer - lle y priodwyd Glyndŵr". Weithiau bydd safle'n gysylltiedig â mwy nag un stori fawr. Mae'r ail-ddehongli diweddar yng Nghastell Dinbych yn dweud wrth ymwelwyr am 'Ddilyn stori' Tywysogion Gwynedd i "Gastell Ewlo: Adeiladwyd gan y tywysogion Cymreig i warchod eu ffin". Mae hefyd yn cyfeirio pobl at safleoedd sy'n gysylltiedig ag Edward I a'i gestyll a'i drefi caerog, e.e. "Dilynwch y stori...i Gastell Rhuddlan: Adeiladwyd gan Edward I ar ddiwedd y rhyfel Cymreig cyntaf i adennill tiroedd a gymerwyd oddi wrth y tywysogion

Cymreig". (Gweler astudiaethau achos isod)


Ochr yn ochr â'r is-benawdau 'Dilynwch y stori' ceir cyfres o eiconau a ddatblygwyd i ddarlunio prif rediad y stori. Mae'r eiconau hyn ar gael i'w defnyddio gan unrhyw un sy'n dymuno bod yn rhan o'r dull Cymru gyfan. Gyda'i gilydd mae'r is-benawdau 'Dilynwch y stori' a'r eiconau stori yn rhan bwysig o'r cysyniad o brosiect dehongli Cymru gyfan, ac yn darparu offeryn defnyddiol ar gyfer cysylltu safleoedd, ac ar gyfer creu adnabyddiaeth yn yr ymwelwyr (h.y. os yw ymwelwyr yn gweld yr eiconau a'r ymadrodd hwn yn ddigon aml, byddant yn dechrau ymgysylltu â nhw). Drwy'r dull hwn daw darparwyr treftadaeth a thwristiaeth at ei gilydd, gan ganiatáu i ni fod yn rhan o gyfanwaith mwy - pawb yn chwarae eu rhan i gyflwyno straeon cyfareddol Cymru mewn ffyrdd ysbrydoledig a chreadigol. Mae'n gweithio ar bob graddfa ac ym mhob lleoliad; mae'r un mor berthnasol i brosiectau treftadaeth gymunedol ag ydyw i gofologfau eiconig; ac mae'n gweithio p'un ai mewn canol tref brysur neu ar fryngaer bellennig o oes yr haearn. Po fwyaf o safleoedd treftadaeth sy'n mabwysiadu'r dull, y gorau y bydd yn gweithio, ac mae cymryd rhan yn hawdd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â david.penberthy@wales.gsi.gov.uk

## Astudiaethau achos

Mae amryw o gyrff drwy Gymru eisoes wedi mabwysiadu'r dull Cymru gyfan...

Pan oedd Planed yn dehongli hanes diwydiant yn **Ne Ddwyrain Sir Benfro**, roeddent yn awyddus i sicrhau fod eu dehongli'n cyd-fynd â'r dull Cymru gyfan. 'Ychydig o bobl sy'n ymwybodol o

- 1 Adluniad o Gastell Sycharth, dim ond un o safleoedd Cadw sy'n defnyddio'r cysyniad 'Dilynwch y stori'  
A reconstruction of Sycharth Castle, just one of the sites using Cadw's 'Follow the story' concept
- 2 Cyflwyno dau llyn stori yng Nghastell Dinbych  
Introducing two story strands at Denbigh Castle
- 3 Amlwch - Creu cysylltiadau rhwng safleoedd treftadaeth Copr  
Amlwch - Creating links between Copper heritage sites



dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal hon, felly roeddem eisau dod o hyd i ffordd o gysylltu'n stori â stori ddiwydiannol fwy Cymru, a chawsom gyfle i wneud hynny drwy'r dehongli Cymru gyfan. Roedd yr eicon y Genedl Ddiwydiannol Gyntaf, a'r slogan 'dilynwch y stori' yn offeryn hawdd i ni gyfeirio pobl at safleoedd treftadaeth eraill sy'n gysylltiedig â diwydiant yr ardal, medd Kate Lindley, Swyddog Prosiect yn Planed. Chwiliwch am ddehongli Planed y tro nesaf yr ydych o gwmpas Saundersfoot, Creswell Quay ac Amroth.

Ar **Ynys Môn**, mae stori Teyrnas Gopr Mynydd Parys a Phorth Amlwch newydd gael ei dehongli gan Fenter Môn. O ddiwedd y 18fed ganrif, cafodd y diwydiant effaith ddramatig ar bobl a thirwedd yr ardal, gan drawsnewid Amlwch yn borthladd prysur yn y broses. Wrth adrodd eu hanes, teimlid ei bod yn bwysig gwneud cysylltiadau â safleoedd lleol eraill megis Meadow Mill. Ar yr un pryd, caiff ymwelwyr eu hannog i archwilio ymhellach i 'Ddilyn stori' Copr, h.y. y Gogarth, lle y cloddiwyd am gopr yn yr amser cynhanesyddol, ac Abertawe (Copperopolis) i'r lle y cludwyd llawer o fwyn Ynys Môn i'w doddi.

Yng **Nghastell Nanhyfer**, mabwysiadodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y dull Cymru gyfan i greu cysylltiadau gwell â safleoedd eraill sy'n adrodd hanes Tywysogion y Deheubarth megis Castell Aberteifi ac Abaty Ystrad Fflur. Yn yr un modd, mae'r dehongli newydd yn Ystrad Fflur yn annog pobl i 'ddilyn y stori' yn Nanhyfer yn ogystal ag Aberteifi, Cilgerran a Chastell Dinefwr.

Dave Penberthy, Pennaeth Dehongli, Cadw.  
e. david.penberthy@wales.gsi.gov.uk





# Following the story

The idea of a Wales wide approach to heritage interpretation is now becoming a reality as Cadw's

**Dave Penberthy** reports.

Wales has big stories to tell and many of these can be linked up on a country-wide basis – ports were supplied by industries inland or from across the water; castles were built as part of strategic defence networks; pilgrims made journeys from spiritual place to spiritual place. It is this holistic approach that has the potential to be one of Wales' strongest selling points to its visitors. Wales is geographically compact enough to offer joined-up stories. Historic places small or large, famous or little known can work together to present a rounded, understandable, engaging and inspiring narrative of the nation's past.

People or visitors are central to the development of the pan-Wales thinking. This approach will encourage visitors to begin to understand that heritage sites do not exist in isolation, but are part of a wider regional or national story. This more coordinated approach can be used to encourage visitors to explore other heritage sites or to make links between places and stories when visiting different sites in the future.

This presents opportunities for partnership working in developing integrated visitor packages that encourage people to stay longer and explore deeper. A series of

'story - led' interpretation plans have been written to support this pan-Wales approach. Ownership, political boundaries or funding criteria are not key drivers in their formulation – stories and the people who will engage in those stories are.

## So how do we get the message over to visitors?

Some of you may have already noticed the **'Follow the story'** slogan and **story icons** that are already starting to appear in interpretation across Wales. These are simple visual clues that, placed on any form of interpretative media, tell the viewers that the interpretation they are engaged with forms part of a wider story - and encourages them to explore other places linked to that story. For instance interpretation at Sycharth Castle gives other options of sites related to Owain Glyndŵr such as "Follow the story...to Hanmer – where Glyndŵr was married".


Sometimes a site will be linked to more than one major story. The recent re-interpretation of Denbigh Castle directs visitors to 'Follow the story' of the Princes of Gwynedd at "Ewloe Castle: Built by the Welsh princes to hold their border". It also directs people to sites related to Edward I

and his castles and walled towns, e.g. "Follow the story...to Rhuddlan Castle: Built by Edward I at the end of the first Welsh war to secure lands taken from the Welsh princes".

The 'Follow the story' straplines are complimented by a suite of icons that have been developed to illustrate the main storylines. These icons are available to be used by anyone wishing to be part of the pan-Wales approach. Together the 'Follow the story' straplines and the story icons form an important part of the concept of the pan-Wales interpretation project, providing a useful tool both for linking sites, and for creating visitor recognition (i.e. if visitors see the icons and this phrase often enough, they will begin to associate with it).

This approach brings heritage and tourism providers together, allowing us to be part of a much greater whole – all playing our roles in delivering the fascinating stories of Wales in inspirational and creative ways. It works at all scales and in all settings; it is just as relevant to community heritage projects as it is to iconic monuments; it works whether it is in a busy town centre or on a remote iron age hillfort. The more heritage sites that adopt the approach, the better it will work. Getting involved is easy - contact: david.penberthy@wales.gsi.gov.uk

Dull Cymru gyfan o ddehongli treftadaeth ddiwydiannol Sir Benfro  
A pan-Wales approach to interpreting Pembrokeshire's industrial heritage



Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn dadorchuddio'r dehongli newydd yn Ystrad Fflur  
Huw Lewis, Minister for Housing, Regeneration and Heritage unveils new interpretation at Strata Florida

## Case studies

A range of organisations throughout Wales have already adopted the pan-Wales approach...

When PLANED were interpreting the story of industry in **South East Pembrokeshire**, they were keen to ensure that their interpretation tied in with the pan-Wales approach. "Few people are aware of the rich industrial heritage of this area, so we wanted to find a way of linking our story in to the larger industrial story of Wales, and the pan-Wales interpretation approach gave us that opportunity. The First Industrial Nation icon, and the 'Follow the story' slogan also gave us an easy tool for referring people to other local heritage sites linked to the area's industry" Kate

Lindley, Project Officer at PLANED explains. Look out for PLANED's interpretation next time you are in and around Saundersfoot, Creswell Quay and Amroth.

On **Anglesey**, the Copper Kingdom story of Mynydd Parys and Porth Amlwch has recently been interpreted by Menter Môn. From the late 18th century, the industry had a dramatic effect on both the people and landscape of the area, transforming Amlwch into a busy port in the process. In telling their story, it was felt important to make links to other local sites such as Meadow Mill. At the same time, visitors are now encouraged to explore further afield to 'Follow the story' of Copper, i.e. the Great Orme, where copper was

mined in prehistoric times, and Swansea (Copperopolis) where much of the Anglesey ore was shipped for smelting.

At **Nevers Castle**, Pembrokeshire Coast National Park adopted the pan-Wales interpretation approach to create better links with other sites telling the story of the Princes of Deheubarth such as Cardigan Castle and Strata Florida Abbey. Reciprocally, the new interpretation at Strata Florida encourages people to 'follow the story' at Nevers as well as Cardigan, Cilgerran and Dinefwr Castles.

Dave Penberthy is Head of Interpretation for Cadw.  
e. david.penberthy@wales.gsi.gov.uk

Ym mis Awst eleni yn Amgueddfa Cymru - cynhaliwyd cynhadledd o'r enw 'Gweddnewid Bywydau Plant'. Ond sut gallwch weddnewid dyfodol plant a phobl ifanc pan fydd mynedfeydd mawreddog iawn i lawer o Amgueddfeydd yn rhoi'r argraff bod gan yr hyn sydd tu fewn ddim fyddai'n berthnasol o gwbl i deulu o Riverside neu blentyn yn ei arddegau o'r Rhondda? Mae **Sarah Greenhalgh** yn dangos sut mae prosiect dychmygol fel *Bling* wedi bod yn hynod o lwyddiannus o ran cael pobl ifanc drwy'r drysau ac i ddangos diddordeb yn Amgueddfa Cymru - casgliadau Amgueddfa Cenedlaethol Cymru.



**W**edi ei ariannu gan Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru mae Bling wedi cyfuno yn arloesol y celfyddydau, amgueddfeydd a fframwaith gweledigaeth Cymunedau'n Gyntaf i ddarparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc, gan gynnwys achrediad drwy'r Wobr

Gweithgareddau ASDAN\*. Nod y prosiect oedd annog creadigrwydd, datblygu diddordeb mewn dysgu, codi cyrhaeddiad, ysgogi dychmyg a chynyddu mynediad at ein casgliadau.

Fe ddaeth y syniad gwreiddiol o bobl ifanc yn y Rhondda, ac rydym yn gweithio gyda 20 o grwpiau o bobl ifanc o Ardaloedd

Cymunedau'n Gyntaf sydd i gyd o fewn taflad carreg o bob un o'n Hamgueddfeydd Cenedlaethol. Fe edrychom ar sut mae metel gwerthfawr, trysorau ac addurniadau yn cael eu defnyddio i fynegi blas, delwedd a statws personol. Fe wnaeth pob grŵp benderfynu ar ffurf eu prosiect a datblygu eu dehongliad eu hunain ac roedd pob



cyfoeth, addurn, aelodaeth o grŵp penodol, neu gall fod yn wrthrych sentimental, trysor teuluol, defod newid byd. Gall fod yn rhywbeth swyddogaethol - i gario arogldarth - neu gellir ei ddefnyddio fel arfwisg fel ffurf o amddiffyniad.

● **gweithio gydag artist** i gynhyrchu ei Bling eu hunain a ysbrydolwyd gan gasgliadau'r Amgueddfa. Penderfynodd y bobl ifanc ar y math o Bling byddent yn hoffi ei greu ac fe wnaeth yr artist eu cynorthwyo drwy roi gwybodaeth a sgiliau arbenigol i alluogi'r bobl ifanc i wireddu eu syniadau - unrhyw beth o fodrwy syml i fwclis mawr gymhleth neu fideos cerddoriaeth a chelfyddyd graffiti. Wnaethant ddatganiad am eu hunain, eu cefndir, ffordd o fyw neu ddyheadau drwy gynhyrchu eu darn o Bling.

● **curadu eu harddangosfa eu hunain** yn eu Hamgueddfa leol a chymryd rhan mewn arddangosfa grŵp Bling yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe. Wnaeth yr arddangosfeydd arddangos y gwaith bywiog a dirgrynl cynhyrchwyd gan y bobl ifanc, pob un a dehongliad gwahanol o'r thema Bling. Arddangoswyd eu gwrthrychau Bling, ynghyd â dehongliad oeddent wedi eu hysgrifenni am y gwaith. Yn ogystal fe wnaed cysylltiadau rhwng gwrthrychau Bling y bobl ifanc a'r eitemau a'u hysbrydolodd yn y casgliad.

Yn y gynhadledd 'Gweddnewid Bywydau Plant' fe wahoddwyd tri o'r bobl ifanc, Mia 13, Jess 16 a Charlene 21 o Ganolfan Galw Heibio Ieuencid Senghennydd a'u gweithiwr ieuencid Matthew ynghyd i rannu eu profiadau Bling. Fel dywedodd Charlene wrth y gynhadledd:

"Ar y dechrau roeddwn yn meddwl fod amgueddfeydd ar gyfer 'gics' tan fy ymweliad cyntaf. Doeddwn i ddim mewn gwirionedd wedi sylweddoli pa mor ddiddorol oedd amgueddfeydd nes i mi ddod yma. Cawsom

bobl i'n harwain ar daith o gwmpas ac i siarad â ni am bethau diddorol - rwyf wedi newid fy meddwl - nid yw dim ond ar gyfer 'gics' ac fe fyddaf yn dod yn ôl'. Mae gan y bobl ifanc o Senghennydd hunaniaeth gref ac roeddent yn awyddus i fynd i'r afael â'r thema o Bling drwy ddefnyddio glo, 'aur du', rhywbeth sy'n hynod o gyfarwydd â phwysig iddyn nhw. Yn dilyn eu hymwelid ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gyda ffocws arbennig ar yr eitemau du ac aur yn yr oriel Origins, fe benderfynodd y bobl ifanc dderbyn y syniad o ganiatáu glo i fod ei hun yn Bling, gan ei fod wedi'r cyfan, yn ddiemwnt yn ei ffurf garwaf.

Wrth weithio gyda'r artist Beth Saunders maent wedi arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau gan ddefnyddio copr a gwifrau amrywiol, ffiwsio gwyr, boglynnu a thorch metel i greu darnau sy'n unigryw, bywiog, creadigol a symbolaidd. Dywedodd Jess wrth y gynhadledd fod,

"Y prosiect yn rhyfeddol. Roedd yn gyffrous iawn i weld fy ngwydr yn dod allan o'r odyn unwaith yr oedd wedi ei danio, ac i weld y canlyniad terfynol. Roedd yn edrych yn hollol wahanol unwaith oedd y gwyr wedi asio gyda'i gilydd yn y gwres"

Wrth gymryd cwestiwn o'r llawr fe ofynnwyd i'r bobl ifanc 'a oes unrhyw un ohonoch wedi gwneud unrhyw ddewisiadau gwahanol neu wneud unrhyw bethau gwahanol, pethau na fydddech chi wedi ei wneud neu bydddech wedi meddwl amdano petaech ddim yn rhan o Bling?"

Atebodd Jess, "Dydwi i ddim yn artistig iawn o gwbl a dydw i erioed wedi hoffi celf, ond rwyf wedi newid fy marn yn llwyr nawr". "Fi hefyd", dywedodd Mia. "Dwi'n gwneud fy newisiadau ar hyn o bryd ac nid oeddwn yn meddwl am ddewis celf oherwydd doeddwn ddim yn meddwl fy mod digon da. Dwi dal yn meddwl nad ydw i'n ddigon da, ond rwyf yn ei fwynhau llawer mwy nawr nag oeddwn o'r blaen, ac rwy'n meddwl y byddaf yn dewis celf fel TGAU."

'Bwrdd Bwyd - Bwrdd Cinio' teyrnged i chwarelwyr llechi wedi ei greu gan grŵp o bobl ifanc o Faesgeirchen, Bangor gyda'r artist Mari Gwent. 'Bwrdd Bwyd - Dinner Table' a tribute to the slate quarrymen made by a group of young people from Maesgeirchen, Bangor with artist Mari Gwent.



**Ffrog Bling (Sydic)** yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Cenedlaethol Caerdydd  
The Sydic Bling dress on display in National Museum Cardiff

Mae Sarah Greenhalgh yn Swyddog Cydgysylltu Cymunedol, Amgueddfa Cymru - National Museum Wales  
e. [sarah.greenhalgh@museumwales.ac.uk](mailto:sarah.greenhalgh@museumwales.ac.uk)  
Gallwch lawr lwytho'r strategaeth Gweddnewid Bywydau Plant ...drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol yn [www.museumwales.ac.uk/en/3603/](http://www.museumwales.ac.uk/en/3603/)

Mae \*ASDAN yn elusen sy'n gweithio ar gyfer 'Hyrwyddo addysg, trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr i ddatblygu eu priodoleddau personol a chymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad drwy ddysgwyr ac adnoddau ASDAN, a lledfu tlodi, lle mae tlodi yn cyfyngu ar gyfleoedd o'r fath i ddysgwyr.' Gweler: [www.asdan.org.uk](http://www.asdan.org.uk)

# Bling

Dysgu drwy ddiwylliant a chreadigrwydd

Jess gydag un o'i darnau o Bling  
"I mi'r peth gorau oedd gweld fy ngwaith yn cael ei arddangos yma - roedd yn rhyfeddol.... doeddwn ni ddim yn gwybod pa mor anhygoel y byddai gweld eich gwaith yn cael ei arddangos yn yr amgueddfa."

Jess with one of her many pieces of Bling  
"For me the best bit had to be seeing my work on display here - it was just overwhelming... we didn't know how amazing it would be to see your work on display in the museum."

grŵp yn cael eu paru gydag artist oedd yn gweithio gyda nhw dros gyfnod o dri mis. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd y grwpiau gyfleoedd i:

● **fynd ar ymweliadau Amgueddfa** i'w amgueddfa leol ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i archwilio'r casgliadau, gweithio gyda churaduron a mynd tu ôl i'r llenni i ddarganfod y gemwaith, arteffactau a gemau sy'n cael eu cadw yn y casgliadau. Gallwch weld rhai o'r dylanwadau yn eu gwaith, boed yn glo fel 'aur du' neu 'Bling mewn celf'. Drwy'r ymweliadau hyn fe welodd y bobl ifanc y gwahanol syniadau o'r hyn y gallai Bling ei olygu, gan gyfarfod a churaduron arbenigol i ystyried beth yw Bling: a yw'n fodrwy? tarian Rufeinig? neu bortread eiconig? Gall Bling fod yn rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio i ddangos statws,

In August this year Amgueddfa Cymru – National Museum Wales hosted a conference entitled 'Transforming Children's Lives'. But how can you transform the futures of children and young people when the over-imposing entrances to many museums give the impression that what's inside has no relevance to a family from Riverside or a teenager from the Rhondda? **Sarah Greenhalgh** shows how an imaginative project called *Bling* has proved hugely successful in getting young people through the doors and involved in Amgueddfa Cymru – National Museum Wales' collections.

Funded by the Welsh Government's Communities First Outcomes Fund *Bling* has innovatively combined the arts, museums and the Communities First vision framework to provide new opportunities for young people, including accreditation through the ASDAN\* Activities Award. The project aimed to encourage

creativity, develop an interest in learning, raise achievement, stimulate imagination and increase access to our collections.

The initial idea came from young people in the Rhondda and we worked with 20 groups of young people from Communities First Areas all within close proximity to each of our National Museums. We looked at how

precious metal, treasure and decoration is used to express taste, image and personal status. Each group determined the shape of their own project and developed their own interpretation and each group was paired up with an artist who worked with them over a period of three months. During this time the groups had opportunities to:

- **go on Museum visits** to their local museum and National Museum Cardiff to explore the collections, work with curators and go behind the scenes to discover the jewellery, artefacts and gems that are kept in the collections. You can see some of the influences in their work, whether it's coal as 'black gold' or 'Bling in art'. Through these visits the young people gained an insight into different notions of what Bling could mean, meeting with specialist curators to explore what Bling could be: is it a ring? a Roman shield? or an iconic portrait? Bling can be something that is used to show status, wealth, decoration, membership of a particular group, or it can be a sentimental object, a family heirloom, a rite of passage. It can be something functional - to carry incense - or it can be used as armour as a form of protection.

- **work with an artist** to produce their own Bling inspired by the Museum collections. The young people decided for themselves the type of Bling they would like to create and the artist facilitated this by giving specialist knowledge and skills to enable the young people to realise their ideas - anything from a simple ring to complex giant necklaces or music videos and graffiti art. They made a statement about their own background, lifestyle or aspirations through producing their piece of Bling.

- **curate their own exhibition** at their local Museum and also take part in a group Bling exhibition at the National Waterfront Museum Swansea. The displays showcased the lively and vibrant work produced by young people, all with a completely different take on the Bling theme. Each exhibition showcased their Bling objects, along with interpretation that they have written on the work. The exhibitions also made connections between the young people's Bling objects and the objects that inspired the young people in the collection.

At the 'Transforming Children's Lives' conference three young people, Mia, 13, Jess, 16 and Charlene, 21 from the Senghenydd Youth Drop In Centre (SYDIC) and their youth worker Matthew were invited along to share their Bling experiences.

As Charlene told the conference:

"At first I thought museums were for geeks until my first visit. I didn't actually realise how interesting museums were until I came here. We had people to give us tours and talk to us about interesting objects - I have changed my mind - it's not just for geeks and I will come back"

The young people from Senghenydd have a strong identity and wanted to address the theme of Bling by using coal, 'black gold', something that is extremely familiar and important to them. Following their visit to National Museum Cardiff, with particular focus on the black and gold exhibits in the Origins gallery, the young people decided to embrace the idea of allowing coal to become the Bling itself, as it is after all, diamond in its roughest form.

Working with artist Beth Saunders they experimented with a variety of techniques using copper and various wires, glass fusing, metal embossing and coiling to create pieces that are unique, vibrant, creative and symbolic. Jess told the conference that, "The project was amazing. It was really exciting to see my glass come out of the kiln once it has been fired and to see the finished result. It looked completely different once the glass had fused together in the heat."

Taking a question from the floor the young people were asked 'have any of you made any different choices or done any different things, things that you wouldn't have done or thought about if you weren't involved in Bling?'

Jess replied, "I'm not very arty at all and I have never really liked art, but I have changed my view completely now." Same here", said Mia. "I'm picking my options now and I wasn't thinking of choosing art because I didn't think I was that good at it. I still don't think I'm very good, but I enjoy it much more now than I did before and I think I will choose art as a GCSE."

Sarah Greenhalgh is Community Co-ordinating Officer, Amgueddfa Cymru – National Museum Wales  
e. [Sarah.greenhalgh@museumwales.ac.uk](mailto:Sarah.greenhalgh@museumwales.ac.uk)  
You can download the strategy Transforming Children's Futures ...by creating pathways for cultural participation at [www.museumwales.ac.uk/en/3603/](http://www.museumwales.ac.uk/en/3603/)

\*ASDAN is a charity working for 'The advancement of education, by providing opportunities for all learners to develop their personal and social attributes and levels of achievement through ASDAN awards and resources, and the relief of poverty, where poverty inhibits such opportunities for learners'. See: [www.asdan.org.uk](http://www.asdan.org.uk)



# Bling

Learning through culture and creativity



# Dehongli mynydd mawr mewn lle bach

Argraff arlunydd o'r adeilad newydd  
Artist's impression of the new build



Mae cynllunio deongliadol a themâu cryf wedi gweddnwedd yr hen ddeunydd arddangos yn Ystradlyn, ar lethrau deheuol Cadair Idris, yn arddangosfa newydd sy'n gwneud cyfiawnder ag un o fynyddoedd mawr Cymru. Mae **Carl Atkinson** yn egluro...

**H**en ffermdy yw Ystradlyn yn nyffryn Tal y Llyn, o fewn Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) sy'n ymestyn hyd at gopa Cadair Idris, gan gynnwys cwm rhewlifol Llyn Cau. Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n rheoli'r warchodfa drawiadol hon. Roedd arddangosfa yn yr adeilad gynt, yn ymdrin ag agweddau o'r mynydd a Pharc Cenedlaethol Eryri, ond roedd wedi dyddio'n arw. Oherwydd y lefelau staffio, dim ond ar sail anghyson dros fisoedd yr haf yr oedd modd agor yr adeilad, felly nid oedd cymhelliant i newid yr arddangosfa nes i gyfle cyllido gan yr UE ddod gerbron – Cymunedau a Natur (CAN) – sy'n cefnogi cynlluniau sy'n creu buddion economaidd a gaiff eu seilio ar adnoddau naturiol lleol. Lluniodd y Cyngor Cefn Gwlad brosiect a fyddai'n creu buddion o'r fath, drwy adnewyddu ac ehangu Ystradlyn a chynnwys uned arlwyio a fyddai'n cael ei gosod fel masnachfaint. Yn sgîl hynny, rydym yn gallu staffio'r adeilad ac roedd modd inni sefydlu arddangosfa newydd yn dehongli'r warchodfa natur.

## Cynllunio Deongliadol

Ein prif nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r Warchodfa Natur Genedlaethol, a dangos fod mwy i'r mynydd na cherdded caled i'r copa a golygfeydd gwych! Dangosodd arolygon ymwelwyr mai'r gynulleidfa graidd oedd cerddwyr mynyddoedd gwryw, canol oed, cefnog, wedi cael addysg, o Loegr, yn aros oddi cartref, a oedd wedi bod yma o'r blaen, ac mai dringo'r mynydd oedd eu nod. Er mwyn rhoi hwb i'r ystafell de penderfynwyd y dylai'r arddangosfa fod yn ehangach ei hapêl a defnyddiwyd map thematig i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynnwys.

Ein themâu cychwynnol oedd:

- Mae Cadair Idris yn Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG)
- Mae'r planhigion ar Gadair Idris yn ddibynnol ar y creigiau y mae'r mynydd wedi'i greu ohonynt, ac ar ei leoliad daearyddol
- Mae Cadair Idris yn tarddu o'r Oes Iâ – cafodd ei greu gan rewlifau – a dyma'r man mwyaf deheuol bellach lle ceir llawer o blanhigion Arctig Alpinaidd a



Idris y Cawr  
Idris the Giant

oedd yn gyffredin pan doddodd yr iâ. Maen nhw'n sensitif i'r tymheredd felly mae hwn yn lle da i weld newid yn yr hinsawdd.

- Mae'r mynydd yn lle rhyfeddol mewn chwedloniaeth – gyda chwedlau am Idris y cawr, ac angenfilod yn Llyn Cau, y llyn diwaelod.
- Mae'r Cyngor Cefn Gwlad am adfer tirwedd fwy naturiol drwy sicrhau llai o bori. Bydd mwy o goed yn tyfu'n uwch ar y lethrau, mwy o rug, a mwy o blanhigion Arctig Alpinaidd yn tyfu mewn mwy o fannau. Bydd hyn yn cymryd cenedlaethau.
- Thema arall hollol annibynnol yw ystlumod. Nid o'r dadansoddiad o'r GNG y deilliodd y thema hon, ond mabwysiadwyd hi am fod yr adeilad yn cynnwys dwy ystlumod pedol lleiaf gyda mynediad camera/fideo, ac roeddem am gadw hynny.

Un her fawr oedd y lle bach, lletchwith, ar gyfer y brif arddangosfa – tua 30m<sup>2</sup>, gyda lle'n cael ei golli er mwyn gosod lifft newydd i ganiatáu mynediad i bobl anabl. Roedd gennym le bach arall yr oedd modd ei ddefnyddio islaw'r grisau. Roeddem am gael rhywbeth a fyddai'n creu argraff weledol gryfach, gyda nodweddion rhyngweithiol, gan apelio at gynulleidfa ehangach heb anghofio'n cynulleidfa graidd o gerddwyr mynyddoedd.

## Datblygu'r Lle

Bu Paul Williams, Uwch Reolwr y Warchodfa, a minnau'n gweithio gyda Imagemakers i gytuno ar gynigion dylunio, dod o hyd i ddelweddau neu eu creu, golygu clipiau

ffilm ar gyfer yr arddangosfa a chreu copi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn bwysig, ysgrifennodd Paul y rhan fwyaf o'r copi Cymraeg fel testun cyfochrog, yn hytrach na chreu cyfieithiad uniongyrchol o'r Saesneg.

Penderfynwyd y byddem yn rhoi 2 sgrin yn y lle bach lawr grisau. Byddai un yn gamera ystlumod yn dangos darnau byw o ffilm neu ddarnau wedi'u recordio o glwyd yr ystlumod, tra byddai'r llall yn chwarae 2 gartŵn a gomisiynwyd yn arbennig – un yn dangos chwedl lle bu cewri, yn cynnwys Idris y cafodd y mynydd ei enwi ar ei ôl, yn ymrafael â'i gilydd, a'r llall yn sôn am y ffawd sy'n disgwyl y sawl sy'n treulio noson ar y mynydd. Cysylltir y chwedl honno â'r angenfilod sy'n llechu yng ngwaelod Llyn Cau! Dehonglwyd y naill chwedl a'r llall â hiwmor, gan eu targedu at blant.

Fyny'r grisau y cysyniad dylunio oedd murlun yn rhedeg ar draws 3 wal, yn dangos y gwaith dringo i'r copa gyda phanorama o'r mynydd wedi'i rannu'n 5 parth cynefin/uchder y mae'r cerddwr yn mynd drwyddynt. Ym mhob parth mae lluniau bach, gyda phenawdau, o blanhigion, adar, anifeiliaid, creigiau a nodweddion unigol eraill y gallai ymwelwyr eu gweld ar y ffordd, wedi cael eu harosod ar y murlun.

Roedd gennym hefyd 3 chyflwyniad clyweled: sgrin agarweiniol fawr yn dangos tarddiad Cadair Idris o greigiau folcanig a ffurfiwyd drwy rym iâ, a dwy sgrin lai wedi'u gosod yn y murlun yn dangos gwaith y tîm sy'n gofalu am y warchodfa, a'r tîm achub mynydd. Byddai ffilmio newydd wedi mynd â ni dros ein cyllideb, ond rai blynyddoedd yn ôl gwnaeth y BBC ffilm am Gadair Idris a bu'n ddigon caredig i adael inni ddefnyddio darnau o honno. Cawsant eu pwytho ynghyd i greu dilyniannau gwirioneddol ysbrydoledig – felly diolch o galon i'r BBC!

Yng nghanol yr ystafell roedd gennym ddarpariaeth ryngweithiol arloesol yn defnyddio technoleg Adnabod Amledd Radio (RFID). Mae'n cynnwys uned PC

## Cydnabyddiaeth

Prosiect strategol o £14.5 miliwn yw Cymunedau a Natur wedi'i reoli a'i ddatblygu gan y Cyngor Cefn Gwlad, ac mae'n cael ei gyllido'n rhannol drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd Llywodraeth Cymru.

y mae ymwelwyr yn dod â chardiau pwnc (e.e. adar, creigiau a thirffurfiau) ati ac yn eu tynnu ar draws darlennydd electronig i sbarduno arddangosiadau neilltuol, gemau neu gyflwyniadau. Crëwyd gêm dditectif yn cysylltu rhywogaethau a chynefinoedd, dilyniant am natur eithafol rhai o gynefinoedd y mynydd, ac un ar sut y bydd rheoli pori yn adfer coedlin mwy naturiol gan ddarogan sut bydd y Gadair yn edrych dros y 150 mlynedd nesaf.

## Pwyso a Mesur

Rwy'n credu ein bod wedi llwyddo i greu arddangosfa amrywiol, cyffrous yn weledol, mewn lle bach a'i bod yn gwneud cyfiawnder ag un o fynyddoedd mawr Cymru a'i etifeddiaeth naturiol. Ond dim ond astudiaeth gloriannu, wedi'i chynnal yn briodol, fydd yn dweud wrthym pa mor llwyddiannus yw yn denu pobl i ymwneud â'r etifeddiaeth naturiol ac yn cyfleu'r themâu allweddol.

A beth am y themâu? Credaf fod yr arddangosfa'n cyfleu fod hon yn Warchodfa Natur Genedlaethol, a'i bod yn delio â'r chwedloniaeth, â rôl rhewlifau yn llunio'n tirwedd, ac â'n hymdrechion ni i adfer tirwedd fwy naturiol. Rwy'n llai sicr a yw'n cyfleu dibyniaeth planhigion ar greigiau ac uchder neu eu sensitifrwydd i newid yn yr hinsawdd. Yn y manylder y mae hyn i'w weld bellach yn hytrach nag yn y prif themâu amlwg. Mae themâu y tu ôl i'r manylder hwn ac weithiau, yn anochel, maent yn cael eu celu ganddo. Un o'r sialensiau dehongli sydd yn fy marn i yn anodd iawn ei meistrolu yw cyfleu themâu sydd yn aml yn weddol haniaethol, pan fydd crebwyll ymwelwyr mewn cyflwr meddyliol hynod ddiriaethol. Os holwch chi bobl am ddarn dehongli neilltuol, maen nhw'n llawer mwy tebygol o ddisgrifio'r hyn y maent wedi'i weld neu'i brofi yn hytrach nag unrhyw syniad haniaethol y maent wedi'i ddirnad.

Mae Carl Atkinson yn Uwch Swyddog Dehongli yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru  
c.atkinson@ccw.gov.uk

# Interpreting a big mountain in a small space

Interpretive planning and strong themes have transformed dated displays at Ystradlyn, on the southern flanks of Cadair Idris, into a new exhibition which does justice to one of Wales' great mountains.

**Carl Atkinson** explains...



Y podiwm RFID  
The RFID podium

## Interpretive Planning

Our primary objective was to raise awareness of the National Nature Reserve, that there was more to the mountain than a slog to the top and great views! Visitor surveys identified the core audience as educated, affluent, middle aged male mountain walkers from England, staying away from home, who had been here before, and were intent on climbing the mountain. In order to support the tea room we decided that the exhibition should have a broader appeal and a thematic map was used to steer the development of content.

Our initial themes were:

- Cadair Idris is a National Nature Reserve (NNR)
- The plantlife on Cadair Idris is dependent on the rocks it's made of, its altitude, and its geographical position
- Cadair Idris is a relic of the Ice Age - shaped by glaciers - and the last southern outpost of many Arctic Alpine plants prevalent when the ice melted. They are sensitive to temperature and so this is a good place to see climate change.



- In myth and legend the mountain is a magical place – with stories of Idris the giant, and monsters in bottomless Llyn Cau.
- CCW aims to restore a more natural landscape through reducing the amount of grazing. There will be more trees reaching a higher altitude, more heather, and more arctic alpine plants growing in more places. This will take generations.
- An unrelated theme concerning bats, not derived from an analysis of the NNR, but because the building contained a roost for Lesser horseshoe bats with camera/video access which we wished to retain.

A major challenge was the small, awkward space for the main exhibition – about 30m<sup>2</sup>, with space lost to a new lift installation to allow disabled access. We did have another useable small space below stairs. We wanted something that would have a more immersive visual feel, would feature interactive elements, and appeal to a broader audience while not forgetting our core mountain walking visitors.

## Developing the Space

Paul Williams, the Senior Reserve Manager, and I worked with Imagemakers to agree design proposals, find or create images, edit film clips for the exhibition and originate copy in Welsh and English. Importantly, Paul wrote most of the Welsh copy as parallel text, rather than simply a direct translation of the English.

We decided that the small downstairs space would house 2 screens, one a bat-cam presenting live or recorded footage from the bat roost, while the other would play 2 specially commissioned cartoons, one about a legend of inter-giant rivalry featuring Idris after whom the mountain is named, and the other concerning the fate awaiting those who spend a night on the mountain, linked to the monsters lurking in the bottom of Llyn Cau! Both were given a humorous treatment oriented towards children.

Upstairs the design concept was a mural running along 3 walls featuring the climb to the summit with a panorama of the mountain divided into 5 habitat/altitude zones through which a walker passes. In each zone were superimposed smaller captioned images of individual plants, birds, animals, rocks and other features which visitors might encounter on the way.

We also had 3 AV presentations: a large introductory screen featuring the origins of Cadair Idris in volcanic rocks shaped by the power of ice, and two smaller screens set into the mural illustrating the work of the team looking after the reserve, and the mountain rescue team. New footage would have taken us beyond our budget, but some years ago the BBC made a film about Cadair Idris and kindly allowed us to use selected clips from this which were stitched together to create some inspiring sequences – our heartfelt thanks to the Beeb!

In the centre of the room we had an innovative interactive using Radio Frequency Identification (RFID) technology. This

## Acknowledgement

Communities and Nature is a £14.5million strategic project developed and managed by CCW and it is part-funded by the European Regional Development Fund through Welsh Government.

consists of a base PC unit to which visitors bring and swipe topic cards (e.g. birds, rocks and landforms) which then trigger particular displays, games or presentations. We created a detective game linking species and habitats, a sequence on the extreme nature of some of the mountain habitats, and one on how managing grazing will restore a more natural tree line envisaging how Cadair will look over the next 150 years.

## Reflections

I think we have succeeded in creating a varied and visually stimulating exhibition in a small space which does justice to one of Wales' great mountains and its natural heritage. But only a properly conducted evaluation study will tell us how successful it is in engaging people with the natural heritage and communicating the key themes.

And what of the themes? I think the exhibition does communicate that this is a National Nature Reserve, and deals with the myths and legends, the role of glaciers in shaping the landscape, and our attempts to restore a more natural landscape. I am less sure whether it communicates the dependence of plants on rocks, altitude or their sensitivity to climate change. This is now in the detail rather than appearing in strong up-front themes. Themes lie behind this detail and are sometimes inevitably obscured by it. One of the interpretive challenges which I think is very difficult to master is to communicate often fairly abstract themes, when visitors are in very concrete mental states. If you ask people about a particular piece of interpretation, they are much more likely to describe what they saw or experienced than any abstract idea they have grasped.

Carl Atkinson is Senior Interpretation Officer at the Countryside Council for Wales  
c.atkinson@ccw.gov.uk

# Calch

Lluniau  
© Dewi Glyn  
Jones a DAT

## - hoelio'r sylw ar Fannau Brycheiniog

Ddim yn gallu fforddio cynllun dehongli cynhwysfawr? Efallai mai gweithdy i gynhyrchu'ch templed eich hunain ar gyfer cynllun dehongli yw'r ateb. Yma mae **Duncan Schlee** yn egluro sut y defnyddiodd prosiect Calch y dull hwn, gan weithio o fewn model adrodd stori Cymru gyfan.

**A**r lethrau'r Mynydd Du ar gyrion gorllewinol Bannau Brycheiniog saif Chwarel Herbert, tirwedd hynod o glogwyni ysgithrog, bryncynau glaswellt wedi'u pori'n isel ac adfeilion enigmatig. Am fwy na 200 mlynedd roedd y lle hardd hwn yn uffern llawn mygdarthau o weithgarwch diwydiannol, lle'r oedd calchfaen yn cael ei gloddio a'i brosesu i wneud calch tan y 1950au.

Mae rôl hollbwysig calch yn creu tirwedd Cymru yn cael ei hanwybyddu'n rhy aml. Mae priodweddau alcalïaidd calch wedi galluogi ffermwyr i drawsnewid priddoedd asid yn dir ffermio cynhyrchiol; mae ei ddefnydd fel morter a gwyngalch wedi helpu i greu ein trefi a'n dinasoedd. Mae calch a chalcfaen yn hanfodol i brosesau diwydiannol fel toddi haearn a chopr – prosesau sydd wedi helpu i wneud Cymru'n enwog drwy'r byd.

Mae'r tomenni pridd gvastraff cyfoethog mewn calch yn Chwarel Herbert wedi dod yn gartref i rywogaethau prin o blanhigion

sy'n ffynnu ar galch ac mae ffurfiant mwynol anarferol sy'n cael ei alw'n 'dwfffa', nad yw ond i'w weld fel arfer mewn ogofau tanddaear, wedi datblygu ar yr wyneb. Heddiw, dim ond ymweld â'r meysydd parcio gerllaw i edmygu'r olygfa neu i fynd â'r ci am dro a wna'r rhan fwyaf o bobl, heb wybod am hanes diddorol y diwydiant calch a'r dirwedd o'u cwmpas. Drwy greu llwybrau diogel gydag arwyddbyst a dehongli arwyddocâd hanesyddol y safle, sylweddolwyd y gellid denu ymwelwyr newydd a dod â manteision i gymunedau lleol. Gyda hynny mewn golwg, penderfynodd perchenogion y safle – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – fod angen cynllun arnynt i gadw a rheoli'r gweddillion diwydiannol sy'n araf ddadfeilio.

Penderfynwyd defnyddio CALCH fel teitl y prosiect, i ddynodi'i hunaniaeth. Cafodd y prosiect ei gynllunio fesul camau unigol, a bydd pob cam yn cael ei ddatblygu a'i sefydlu ar ei ben ei hun fel y daw arian ar gael. Roeddem yn gwybod bod angen



**'Roedd sylweddoli bod rôl cynllun dehongli yn llawer mwy na phenderfynu beth i'w roi ar gwpl o fyrddau dehongli yn agoriad llygad gwirioneddol.'**

strategaeth ddehongli arnom ochr yn ochr â'r cynlluniau cadwraeth a rheolaeth safle ond nid oeddem yn gallu fforddio un. Awgrymodd ein hymgyngorwyr mai fformat gweithdy dehongli fyddai'r ffordd fwyaf cost effeithiol i helpu tîm prosiect CALCH i grisialu syniadau a rhoi ffocws iddynt, a chynhyrchu templed ar gyfer cynllun dehongli.

Arweiniwyd aelodau'r tîm (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chanolfan y Mynydd Du) gan Carolyn Lloyd Brown a David Patrick drwy ddeuddydd dwys o daflu a gwyntyllu syniadau. Daeth pob aelod o'r tîm â'i arbenigedd ei hun i'r gweithdy ac o'r mewn-bwn hwn datblygodd y syniadau, y themâu a'r negeseuon allweddol yr ydym am eu cyfleu. A chadw mewn cof strategaeth adrodd stori Cymru gyfan, penderfynom ddatblygu themâu dehongli ar gyfer y safle sy'n cyd-fynd â'r rhai yng nghynllun dehongli Cadw, *Cymru – y Wlad Ddiwydiannol Gyntaf*.

Y cyngor a'n sobreiddiodd fwyaf oedd y gost debygol o wireddu ein dyheadau! Buan y llyncwyd yr hyn a oedd i ddechrau yn edrych fel cyllideb resymol wrth inni adio holl gostau'r cynllun defnyddol. Gorfododd hyn ni i flaenoriaethu pa rannau o'r cynllun oedd yn fwyaf pwysig i'w gweithredu'n gyntaf, ac i ganfod opsiynau rhatach os na allem godi digon o arian. Mewn llawer o ffyrdd, mae i'r opsiynau rhatach, er enghraifft defnyddio defnyddiau sydd ar y safle (creigiau mawr yn y bôn) i greu seddau ac arwyddbyst, fanteision eraill hefyd – maen nhw'n ecogyfeillgar ac yn llai amlwg yn weledol! Yr her fwyaf yw annog ymwelwyr newydd i'r chwareli. Gyda hyrwyddo da mae i'r safle y potensial i fod yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr. Felly, rhoddwyd mwy o bwyslais ar agweddau hyrwyddo ac arwyddion y cynllun dehongli. Cynhaliwyd penwythnos o deithiau tywys ar y safle a 'theithiau stori' gyda grŵp o storiwyr lleol (wedi'u gwisgo fel defaid!). Rhoddodd y digwyddiad hwn syniad inni am y math o bobl sydd eisoes yn ymweld â'r Mynydd Du a pha lwybrau a lleoliadau yw'r gorau ar gyfer adrodd y llw o storïau sydd gennym. Roedd hefyd yn gyfle da i glywed atgofion am y chwareli gan ymwelwyr lleol. Drwy greu cysylltiadau gwaith rhwng CALCH a chynlluniau twristiaeth gynaliadwy lleol eraill, megis cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Bannau Brycheiniog, ein nod yw gwneud mwy gyda'r adnoddau sydd gennym.



**Mae hyd yn oed hen swyddfa brisblocciau'n edrych yn dda mewn tirwedd godidog!**  
Even an old breeze block office looks good in a spectacular landscape!

### Beth ydym ni wedi'i ddysgu?

Roedd sylweddoli bod rôl cynllun dehongli yn llawer mwy na phenderfynu beth i'w roi ar gwpl o fyrddau dehongli yn agoriad llygad gwirioneddol. Drwy'r gweithdy mae gwahanol agweddau dehongli wedi cael eu blaenoriaethu, eu rhannu'n gamau a'u hintegreiddio i'r prosiect cyfan erbyn hyn. Mewn gwirionedd, drafft parhaol yw ein cynllun dehongli. Wrth inni sicrhau rhagor o arian bydd yn dal i dyfu wrth inni ddatblygu'r cynnwys manwl.

*Duncan Schlee yw Rheolwr Prosiect CALCH. e. d.schlee@dyfedarchaeology.org.uk*

Cafodd Cam 1 CALCH ei ariannu gan Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog. Mae ceisiadau ar gyfer Cam 2 wedi cael eu cyflwyno i Gronfa Datblygu Cynaliadwy Bannau Brycheiniog, Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau (Cymru) a Phrosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw.



Mae'r chwareli, sy'n codi fesul gris i fyny ochr y mynydd, wedi magu harddwch naturiol  
The quarries, in stepped ranks up the mountainside have acquired a natural beauty



Canfod ffosilau ar daith ar hyd llawr y chwarel galchfaen  
Fossil spotting on a tour of the limestone quarry floor

# Calch

Photographs  
© Dewi Glyn  
Jones and DAT

## - putting the Brecon Beacons in the limelight



Mor fychan yw pobl  
o'u cymharu â'r  
tomenni pridd  
gwastraff  
Figures are dwarfed  
by the scale of the  
spoil tip landforms

Can't afford a full blown interpretation plan? Perhaps a workshop to produce your own interpretation plan template is the answer. **Duncan Schlee** explains how the Calch project used this approach, working within the pan Wales story-telling model.

Perched on the Black Mountain on the western fringe of the Brecon Beacons is Herbert's Quarry, a remarkable landscape of craggy cliffs, close cropped grassy knolls and enigmatic ruins. For more than 200 years this beautiful place was a fume-filled inferno of industrial activity where limestone was quarried and processed to make lime up until the 1950s.

The vital role lime has played in creating the landscapes of Wales is often overlooked. Its alkaline properties have enabled farmers to transform acid soils into productive

farmland; its uses as mortar and whitewash have helped build our towns and cities. Lime and limestone are crucial to industrial processes such as iron and copper smelting - which have helped make Wales world famous.

The lime rich spoil tips at Herbert's Quarry have become home to rare lime loving plant species and an unusual mineral formation known as 'tufa', normally only found underground in caves, has developed on the surface. Today most people only visit the nearby car parks to admire the

magnificent views or to walk the dog, unaware of the fascinating story of the lime industry and the landscape that surrounds them. It was recognised that by creating safe signposted routes and interpreting its historic importance the site could attract new visitors and bring benefits to local communities. With this in mind, the owners of the site - Brecon Beacons National Park Authority (BBNPA) - decided that they needed a plan to conserve and manage the crumbling industrial remains.

CALCH (the Welsh word for lime) was settled on as an identity for the project, which has been designed as a staged structure so that each stand-alone phase will develop and build as funding becomes available. We knew we needed an interpretation strategy alongside the conservation and site management plans but we couldn't afford one. Our consultants suggested an interpretation workshop format would be the most cost effective way to help the CALCH project team clarify and focus ideas and produce an interpretation plan template.

Members of the team (Dyfed Archaeological Trust, Brecon Beacons National Park Authority, National Museum of Wales, and the Black Mountain Centre) were led by Carolyn Lloyd Brown and David Patrick through an intense two days of brainstorming and kite flying. Each team member brought their own expertise to the workshop and from this input the key

ideas, themes and messages that we want to communicate emerged. Bearing in mind the pan Wales story-telling strategy, we decided to develop interpretive themes for the site in line with those of Cadw's *Wales - the First Industrial Nation* interpretation plan.

The most sobering advice was the likely costs of our aspirations! What at first seemed like a reasonable budget was soon whittled away as we totted up the costs of the ideal scheme. This forced us to prioritise which parts of the plan were most important to implement first, and to identify cheaper options if we could not raise enough funding. In many ways, the cheaper options, for example using on-site materials (basically large rocks) to create seats and waymarkers also have other advantages, such as being environmentally friendly and less visually intrusive!

The biggest challenge is encouraging new visitors to the quarries. With good promotion the site has the potential to become a popular visitor destination. The promotional and signage aspects of the interpretation plan were therefore given more importance. We held a weekend of guided site tours and 'story walks' with a group of local storytellers (disguised as sheep!). This event has given us an idea of the types of people that already visit the Black Mountain and which routes and locations are best for telling the many stories

'Realising that the role of the interpretation plan was far more than deciding what to put on a couple of information boards has been a real eye-opener.'



Ffrwd o dwffa  
yn treiddio o'r  
tomenni gwasttraff  
A stream of tufa  
precipitated from  
the spoil tips

Ymweliad y gweithdy  
dehongli â'r safle  
The interpretation  
workshop site visit

we have. It was also a good opportunity to hear memories about the quarries from local visitors. By creating working links between CALCH and local sustainable tourism initiatives such as the Brecon Beacons Tourism Ambassadors scheme we aim to achieve more with the resources we have.

### What have we learnt?

Realising that the role of the interpretation plan was far more than deciding what to put on a couple of information boards has been a real eye-opener. Through the workshop the different aspects of interpretation are now prioritised, phased and integrated into the project as a whole. Our interpretation plan is effectively in perpetual draft. As more funding is obtained it will continue to grow as the detail of content is developed.

Duncan Schlee is the Project Manager for CALCH.  
e. [d.schlee@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:d.schlee@dyfedarchaeology.org.uk)

Phase 1 of CALCH has been funded by The Brecon Beacons Trust. Grant applications for Phase 2 have been made to the Brecon Beacons Sustainable Development Fund, the Aggregates Levy fund for Wales and the Cadw Heritage Tourism Project.

## Dehongli Haearn Bwrw

**27ain/28ain Tachwedd 2012**

yng Nghastell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

Ymunwch â'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, Huw Lewis A.C., y prif siaradwr yn y digwyddiad hwn. Gan ddefnyddio Gwaith Haearn Cyfarthfa fel ein hastudiaeth achos, bydd deuddydd o weithdai ymarferol yn eich tywys drwy'r broses cynllunio deongliadol.

Bydd y cwrs hyfforddi yn help hefyd ichi ymgyswrtio â dull cynllunio deongliadol uchelgeisiol ac arloesol Cymru gyfan a bydd yn egluro sut y gall y dull hwn fod o fudd i'ch prosiectau cynllunio deongliadol chi a chreu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth ac adfywio. Nod y fframwaith dehongli treftadaeth hwn sydd ar waith ledled y wlad yw creu dehongliadau sy'n canolbwyntio ar yr ymwelydd, gan adrodd storiâu sy'n sôn am bobl o fewn naratif cenedlaethol troswaol. Mae'r ffordd hon o weithredu yn taro coch ar gynfas ehangach – gellir cymhwyso'i hegwyddorion hefyd i safleoedd treftadaeth a storiâu rhanbarthol y tu hwnt i Gymru gan ddarparu dehongli cydlynol a grymus.

**Cost £100 yr archeb: [admin@ahi.org.uk](mailto:admin@ahi.org.uk)**

## Digwyddiad Dwyieithrwydd yn yr Arfaeth

Yng ngwanwyn 2013 bydd Amgueddfa Cymru yn cynnal digwyddiad i drafod goblygiadau ac ystyriaethau ymarferol gweithio'n ddwyieithog. Mae mwy o sefydliadau'n darparu cynnwys a gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd y newidiadau deddfwriaethol sydd ar y gorwel yn effeithio'n fawr ar yr hyn y mae rhaid inni ei wneud. Bydd y digwyddiad hwn o ddiddordeb i unrhyw un sydd am drafod profiadau a'r ymarfer gorau yn y maes hwn. A wnaiff unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn bresennol, neu sydd am drafod gweithdai neu seminarau posibl, gysylltu â Mari Gordon ar [mari.gordon@museumwales.ac.uk](mailto:mari.gordon@museumwales.ac.uk) neu (029) 20573235. Diolch!

## Gorffennol Digidol 2013

**Technolegau newydd ym maes treftadaeth, dehongli a gwaith maes**

yn Neuadd y Sir, Trefynwy 20fed-21ain Chwefror 2013.  
Manylion ar: [www.rcahmw.gov.uk](http://www.rcahmw.gov.uk)

## Cast Iron Interpretation

**27th/28th November 2012**

at Cyfarthfa Castle, Merthyr Tydfil

Join the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, Huw Lewis A.M. who will be the keynote speaker at this event. Using Cyfarthfa Ironworks as our case-study, two days of practical workshops will guide you through the interpretive planning process.

The training course will also help to familiarize you with the ambitious and innovative pan-Wales interpretation planning approach and explain how it can benefit your interpretive planning projects and open up opportunities for tourism and regeneration. This country-wide heritage interpretation framework aims to create visitor orientated interpretation, telling people-based stories within an overarching national narrative. The approach has resonance wider afield – its principles can equally be applied to heritage sites and stories regionally beyond Wales to provide cohesive and compelling interpretation.

**Cost: £100 Bookings: [admin@ahi.org.uk](mailto:admin@ahi.org.uk)**

## Best practice for Bilingualism

In spring 2013 Amgueddfa Cymru will be holding an event to discuss the implications and practicalities of working bilingually. More organizations are providing content and services in both Welsh and English, and the forthcoming changes in legislation will have a huge impact on what we have to do. The event will be of interest to anyone who wants to discuss experiences and best practice in this field. Please can anyone interested in attending, or discussing potential workshops or seminars, contact Mari Gordon on [mari.gordon@museumwales.ac.uk](mailto:mari.gordon@museumwales.ac.uk) or (029) 20573235. Diolch!

## Digital Past 2013

**New technologies in heritage, interpretation & outreach at The Shire Hall, Monmouth**

20th-21st February 2013.

Details at: [www.rcahmw.gov.uk](http://www.rcahmw.gov.uk)